



Inspecting policing  
in the public interest

**Pennu Gwerth yr Heddlu:  
Adolygiad o Barodrzydd**

**Heddlu Gwent  
Gorffennaf 2011**

## Diben yr adolygiad

Mae Gwasanaeth yr Heddlu, ynghyd â phob rhan arall o'r sector cyhoeddus, yn wynebu ei her ariannol fwyaf ers cenhedlaeth. Gellid ystyried naill ai bod hwn yn gyfle i arloesi ac adfywio – neu'n rheswm i barhau fel y mae pethau a gweld y gwasanaethau'n torri'n ôl.

Bu Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn ymwneud yn helaeth â monitro ymateb y Gwasanaeth a'i barodrwydd am gwtogi ar droseddu a lleihau costau ar yr un pryd. Yn rhan o hyn, aethom ati yng Ngwanwyn 2011 i arolygu pob un o'r 43 o heddluoedd ac awdurdodau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn asesu:

- sut maent yn bwriadu ateb yr her ariannol; a
- beth fydd yr effaith ar y gwasanaeth a ddarparant i'r cyhoedd.

Yn yr adroddiad hwn, crynhoir y canfyddiadau ar gyfer Heddlu Gwent. Mae adroddiad thematig, *Adapting to Austerity*, sy'n cyfuno canfyddiadau'r 43 o heddluoedd i gyd, ar gael hefyd o [www.hmic.gov.uk](http://www.hmic.gov.uk).

## Canfyddiadau ar gyfer Heddlu Gwent

### Beth yw'r her ariannol yn Gwent?

Mae Heddlu Gwent ac Awdurdod Heddlu Gwent yn adrodd eu bod yn wynebu gostyngiad arian parod o £ 24.1m at eu cyllideb dros bedair blynedd y cyfnod adolygiad cynhwysfawr o wariant (2011/12-14/15). Mewn termau real (hy pan mae chwyddiant yn cael ei ystyried), mae hyn yn cyfateb i 16 y cant o'u gwariant refeniw gros.

### A yw'r heddlu a'r awdurdod yn barod i ateb yr her ariannol hon?

Roedd yr heddlu a'r awdurdod yn deall yr her ariannol o'u blaenau, ac maent wedi ymrwymo i'w hateb. Maent wedi datblygu cynllun ariannol clir sy'n dangos ymagwedd gyson at y toriadau, ac sy'n disgrifio amrywiaeth o ostyngiadau cyllideb ac arbedion effeithlonrwydd dros bedair blynedd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar raglen 'Aros ar y Blaen' Heddlu Gwent, sydd wedi'i hen sefydlu ac a fu'n gwneud arbedion ers 2007. Mae'r hanes hwn o wneud arbedion effeithlonrwydd yn golygu y bu Heddlu Gwent mewn sefyllfa dda i nodi arbedion risg isel pellach i'w gwneud yn 2011/12.

## Beth fydd yr effaith ar nifer staff a swyddogion yr heddlu?

Roedd Heddlu Gwent yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i niferoedd ei weithlu.

	Swyddogion yr Heddlu	Staff yr Heddlu	Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
<b>31 Mawrth 2010 (gwirioneddol)</b>	1,437	810	143
<b>31 Mawrth 2015 (arfaethedig)</b>	1,270	674	146

Ffigurau mis Mawrth 2010 a ddefnyddiwyd yn fan cychwyn, gan fod rhan fwyaf o wasanaethau heddlu wedi dechrau rhewi recriwtio yn y flwyddyn honno, a niferoedd y gweithlu wedi dechrau gostwng o ganlyniad. Cafodd y ffigurau arfaethedig a ddangosir ar gyfer Mawrth 2015 eu darparu i HMIC gan yr heddlu ym mis Mehefin 2011.

Bydd cynlluniau'r heddlu a'r awdurdod ar gyfer y gweithlu yn parhau i gael eu mireinio wrth i'r rhaglen newid fynd yn ei blaen.

## Beth fydd yr effaith ar y gwasanaeth i'r cyhoedd?

Mae Awdurdod a Heddlu Gwent wedi ymrwymo'n gadarn i amddiffyn plismona amlwg ar lefel cymdogaeth. Yn y tymor byr, mae hyn yn golygu bod lefelau uchel o adnoddau mewn plismona cymdogaeth wedi cael eu cynnal ar draws yr heddlu, ynghyd â ffocws ar ddiogelu rhag niwed.

Roedd trefniadau ymgynghori effeithiol yn eu lle i lywio penderfyniadau dros y pedair blynedd nesaf. Aethpwyd ati'n bwylllog ac yn fwriadol o gynnil i gyfleu canlyniadau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae hyn yn cynnwys rhoi negeseuon allweddol i bartneriaid a fforymau cymunedol ar faint y toriadau a'r cynlluniau i fynd i'r afael â hwy.

## A oes gan yr heddlu dargedau i gwtogi ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Tasg gyntaf yr heddlu yw cwtogi ar droseddu a chadw'r heddwch; yn 2010, dywedodd Theresa May, yr Ysgrifennydd Cartref, ei bod yn disgwyl i heddluoedd ac awdurdodau wneud toriadau ariannol ond parhau i gwtogi ar droseddu a hynny heb niweidio'r rheng flaen.

Mae *Cynllun Plismona Gwent* yn cynnwys amcanion i gwtogi ar fyrghleriaeth, lladradau metel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol dros y flwyddyn nesaf.

